Y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd

Integrated Family Support Team

## Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd Caerdydd a'r Fro

# Gwybodaeth i Deuluoedd

Helpu teuluoedd i wneud newidiadau a rhoi trefn ar eu bywydau

Cardiff Caerdydd | Vale of Glamorgan Bro Morgannwg | Llywodraeth Cymru Welsh Government | GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

Mae Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd Caerdydd a'r Fro yn dîm medrus, cymwys a chofrestredig o staff proffesiynol a phrofiadol, sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i weithio gyda theuluoedd mewn argyfwng lle ceir problemau gyda chamddefnyddio sylweddau, cyffuriau neu alcohol.

---

**Beth rydym ni'n ei wneud**

Weithiau bydd teuluoedd yn cael anawsterau ac yn wynebu'r risg o weld eu plant yn mynd i gartref gofal neu'n cael eu cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Weithiau bydd y plant eisoes yn derbyn gofal gan bobl eraill neu mewn gofal a bod eu teuluoedd am iddynt ddod adref.

Dyma le gallwn ni helpu. Rydym yn dangos i deuluoedd fel eich un chi sut i wneud y newidiadau sydd eu hangen i roi trefn ar eich bywyd, fel nad oes rhaid i weithwyr proffesiynol bryderu gymaint a fel y gall y plant fyw gartref yn ddiogel os yw'n bosibl.

**Sut ydyn ni'n gwneud hynny?**

Yn syml, rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n wynebu anawsterau. Rydym yn gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Gyda'n gilydd byddwn yn ystyried y cryfderau a'r adnoddau sydd gennych chi a'ch teulu eisoes. Mae'n bwysig i ni gael clywed am y pethau da yn ogystal â'r pethau a allai fod yn peri anhawster i chi.
- Byddwn yn gofyn i chi a'ch teulu pa newidiadau y dylai bob un ohonoch eu gwneud yn eich barn chi. Byddwn yn eich helpu i feddwl am beth y gallai'r newidiadau hyn fod, a sut i'w rhoi nhw ar waith. Byddwn yn eich helpu i baratoi strategaethau newydd neu ymarfer sgiliau newydd a allai fod o gymorth hefyd
- Rydym yn gweithio'n hyblyg i gynnig gwasanaeth sy'n addas ar gyfer anghenion a rhwymedigaethau eich teulu, er mwyn sicrhau y byddwn ar gael os bydd angen help arnoch.
- Ein nod yw gweithio gyda phob aelod o'ch teulu am o leiaf tridiau, a hyd at 6 wythnos  Byddwn yn eich helpu chi i osod a chyflawni rhai nodau realistig a synhwyrol a fydd yn eich galluogi i newid eich bywyd er gwell.
- Byddwn yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Weithiwr Cymdeithasol y plentyn, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt ein gwaith ac unrhyw newidiadau a wnaed gennych.
- Ar bob cam o'n gyda'n gilydd rhoddir cyfle i chi fynegi eich barn ar sut mae'r gwasanaeth yn gweithio. Byddwch hefyd yn derbyn copïau o bob adroddiad a ysgrifennwyd amdanoch er mwyn sicrhau bob popeth yn glir.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y rhaglen?**

Ar ôl i ni orffen ein gwaith gyda'n gilydd, byddwn yn gwneud trefniadau i'ch gweld ar ysbeidiau rheolaidd. Byddwn yn cysylltu â chi mis, tri mis, chwe mis a 12 mis ar ôl y rhaglen er mwyn gweld sut mae pethau'n mynd ac i weld sut rydych yn gweithio tuag at gyflawni eich nodau.

Rhwng yr adegau hyn gall fod achosion pryd y gall fod yn ddefnyddiol i gael ambell sesiwn ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â ni neu siaradwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol i drefnu hyn. Gallwn hefyd eich cyfeirio at asiantaethau eraill a all gynnig help a chymorth i chi unwaith i ni orffen ein gwaith gyda'n gilydd.

**Adborth**

Rydym am wella'r gwasanaeth yn barhaus. Os oes unrhyw ffyrdd y gallem wella'r gwasanaeth yn eich barn chi, mae croeso i chi drafod hyn â ni.

**Cysylltwch â ni**

- Ffôn: 029 2087 3450
- E-bost: ifst@caerdydd.gov.uk
- gwefan: www.ifstcandv.org